
**C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG
AR ADDYSG GREFYDDOL
29/11/2022**

Presenoldeb :

Y Cynghorwyr : Meryl Roberts (Yn y Gadair), Paul Rowlinson, Elin Walker Jones a Beca Brown (Aelod Cabinet)

Eraill:

Cristnogion a Chrefyddau Eraill : Edward Pari Jones (Dyneiddiwr), Y Parchedig Nick Sissons (Eglwys Fethodistaidd)

Athrawon : Miriam Amlyn (NAS/UWT)

Swyddogion : Garem P Jackson (Pennaeth Addysg), Einir Rh Davies a Rhodri Jones (Swyddogion Cefnogi Aelodau), Buddug Mair Huws (Clerc CYSAG) a'r Cyfieithwyr

1. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Y Cynghorydd Paul Rowlinson a chymerwyd y cyfle am fyfyrddod tawel.

2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau ymlaen llaw gan Nathan Abrams, Cyng. Menna Baines, Sion Huws, Heledd Jones a Gwawr M Williams a derbyniwyd ymddiheuriadau hwyr gan Bethan Jones a Naomi Wood.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

4. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw fater bryd.

5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf, 2022, fel rhai cywir a bu i'r Cadeirydd eu llofnodi, ar yr amod bod y cywiriadau canlynol yn cael eu nodi :

Eitem 6 – Ychwanegu "... yr ysgolion sydd yn cyflwyno *Cwricwlwm i Gymru ym Mlwyddyn 7*"

Eitem 6 – Dileu "*Chwefror 2021*"

Eitem 8 – Ail-eirio "Ychwanegwyd mwy o gynrychiolwyr o'r credoau"

6. AELODAETH A GWAITH CYSAG

Cyflwynodd pawb eu hunain a pwy yr oeddynt yn ei gynrychioli. Rhoddodd Y Cynghorydd Paul Rowlinson gyflwyniad llafar ar waith y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a Chymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGauC) CYSAG gan gyfeirio at y Llyfryn "Felly Rydych yn Ymuno a'ch CYSAG Lleol" : Llawlyfr i Aelodau CYSAG yng Nghymru.

Nodwyd bod nifer o'r materion sydd yn cael eu trafod yn y Llyfryn wedi eu trafod gan CYSAG, megis

Cynnal cynhadledd pob pum mlynedd
Trafod y cwricwlwm newydd
Maes llafur cytunedig
Newid enw y pwnc
Cefnogi ysgolion
Danfon cynrychiolwyr i gyfarfodydd CCYSAGauC
Ymateb i ymgynghoriadau
Ystyried sut i fonitro ysgolion
Pa wahaniaeth mae CYSAG yn ei wneud?
Sut all CYSAG Gwynedd wella?
Diffyg arbenigedd yn y maes.

PENDERFYNWYD: Derbyn y cyflwyniad i waith CYSAG.

7. SUT GALL CYSAG FONITRO SAFONAU O FEWN YSGOLION GWYNEDD O 2022?

Atgoffwyd y Pwyllgor o'r rol fonitro sydd gan CYSAG, a cyfeiriwyd at y pecyn oedd wedi ei atodi, yn dangos y sefyllfa cyn 2020. Nodwyd bod dogfen yn cael ei rhannu i pob Ysgol oedd yn cael Arolwg ESTYN i'w chwblhau, ac yna ei chyflwyno i CYSAG, ond nodwyd bod y cyd-destun wedi newid erbyn hyn.

Nodwyd y pryder nad yw mor hawdd cael gwybodaeth erbyn hyn, bod ESTYN ddim yn graddoli ysgolion nac yn eu cymharu, ond yn rhoi fwy o naratif yn eu hadroddiadau, ac o ganlyniad bod y ffordd bresennol o fonitro ddim yn addas erbyn hyn. Yn ychwanegol, nodwyd y nod i leihau y baich gweinyddol ar athrawon.

Nodwyd y pryder am y diffyg cefnogaeth arbenigol i CYSAG yn dilyn newidiadau gan GwE, ond bu i'r Pennaeth Addysg gadarnhau bod cyfarfod ar y gweill ganddo fyddai, o bosib, yn cynnig datrysiad.

Teimlwyd efallai na aros a gweld fyddai mwyaf addas ar hyn o bryd, gan ein bod yn y camau cychwynnol o gyfnod o newid.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac ysgrifennu at CCYSAGauC am arweiniad

8. DIWEDDARIAD : MAES LLAFUR CYTUNEDIG AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG O FEWN Y CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU

Cyfeiriodd Clerc CYSAG at y camau a gymerwyd i dderbyn y maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm Newydd i Gymru, ac er na chafwyd sel bendith y Cabinet erbyn Medi 2022, bod y sel bendith wedi ei roi erbyn hyn.

PENDERFYNWYD derbyn y diweddariad.

9. GOHEBIAETH WEDI EI DDERBYN GAN Y CYSAGAU

Cynhadledd yr Hydref y CCYSAGauC

Nododd y Cynghorydd Paul Rowlinson ei fod wedi mynychu cynhadledd yr Hydref CCYSAGauC, ac adroddodd fel a ganlyn :

Bu i'r mynychwyr dderbyn cyflwyniad ar becyn adnoddau Blwyddyn8, ac er bod nifer o fodiwlau yn y broses o gael eu hasesu, eu bod yn edrych yn dda.

O ran Materion Llywodraeth Cymru, nododd bod y cwestiwn wedi codi yn dilyn diddymu yr hawl i riant dynnu ei blentyn o wersi, ble cwestiynwyd a fyddai hyn yn creu yr un problemau a hawl rhiant i dynnu disgybl o wersi addysg rhyw, ond nid oeddynt o'r farn fod y sefyllfa yr un peth.

Codwyd y mater o fonitro safonau a chadarnhawyd bod angen trafod ymhellach gyda Llywodraeth Cymru.

Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i bob CYSAG baratoi Adroddiad Blynyddol a thrafodwyd fformat yr adroddiadau presennol.

Manylion yr Wythnos Ryng-Ffydd

Nodwyd pryder ei bod yn ymddangos bod gweithgareddau wedi eu canslo mewn rhai ardaloedd, ond roedd yn ymddangos mai mewn un ardal yn unig oedd hyn wedi digwydd.

PENDERFYNWYD derbyn yr ohebiaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30 p.m. a daeth i ben am 4.30 p.m.

CADEIRYDD